

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan,

**Practis Deintyddol
Trefynwy**

23 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd	15
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Trefynwy yn 10 St James Street, Trefynwy, NP25 3DL, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 23 Chwefror 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.¹

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion

¹ Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle y bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Trefynwy yn darparu gwasanaethau i gleifion yn nhref Trefynwy a'r rhai sy'n byw ger y ffin â Chymru/Lloegr. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys: tri deintydd, tair nyrs ddeintyddol, a derbynnydd/rheolwr y practis. Roedd y gwaith cyffredinol o reoli'r practis yn cael ei ddarparu gan Mr E. H. Cronin a Mrs J. M. Cronin (deintyddion sy'n gweithio yn y practis), ac roedd rheolwr y practis a phob aelod arall o'r tîm deintyddol yn gyfrifol am feysydd cytûn yn ymwneud â gweithredu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Archwiliadau a chyngor
- Pelydrau-X
- Triniaeth ataliol a pheriodontol (y deintgig)
- Llenwadau
- Tynnu dannedd
- Corunau
- Dannedd gosod ac atgyweiriadau
- Atgyfeirio cleifion i wasanaethau sydd y tu hwnt i gwmpas gofal deintyddol cyffredinol (er enghraifft, gwasanaethau orthodontig)
- Ymweliadau cartref y GIG

Mae Practis Deintyddol Trefynwy yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis Deintyddol Trefynwy yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion y buom yn siarad â hwy a'r rhai a gwblhaodd holiaduron eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ac nad oeddent wedi profi unrhyw oedi sylweddol wrth aros i weld deintydd.

Canfuom fod y practis yn cael ei weithredu gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth o ansawdd i gleifion.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, ystyriwyd a oedd y cyfleusterau clinigol sydd ar gael yn y practis yn cydymffurfio â safonau cyfredol ar gyfer gwasanaethau iechyd Cymru – fel yr amlinellwyd yn y ddogfen 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well'.² Cadarnhaodd ein harsylwadau fod yr amgylchedd clinigol o safon uchel gyda phwyslais arbennig ar ddiogelwch cleifion.

Cynghorwyd y practis bod dau welliant wedi'u nodi. Roedd y rhain yn ymwneud â'r angen i sicrhau bod yr holl gofnodion ar gyfer cleifion yn y dyfodol yn cynnwys digon o fanylion yn dilyn ymgynghoriadau a thriniaeth ddeintyddol, a'r angen i wella trefniadau sy'n gysylltiedig â rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn.

Cafodd y ddeintyddfa ei sefydlu a'i rhedeg yn dda gan Mr E. H. Cronin a Mrs J. M. Cronin gyda chymorth tîm o staff profiadol, llawn cymhelliant. Roedd gan y practis weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn cymorth da er mwyn cyflawni eu rolau.

Cafodd y ddeintyddfa ei chynnal a'i chadw'n dda, ac roedd yn darparu amgylchedd diogel er mwyn i gleifion dderbyn triniaeth. Gwelsom hefyd fod yr adeilad yn lân ac yn hylan drwyddo draw.

² <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd-cym>.

Caiff y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru eu hategu gan ganllawiau atodol. Mae canllawiau penodol ar bob safon unigol (1–26) ar gael yn y ddogfen hon.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Fe'n hysbyswyd gan gleifion y buom yn siarad â hwy a'r rhai a gwblhaodd holiaduron eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ac nad oeddent wedi profi unrhyw oedi sylweddol wrth aros i weld deintydd.

Cyflwynodd tîm y practis eu hunain fel pobl broffesiynol, gyfeillgar a chroesawgar, a gwelsom eu bod yn gwrtais ac yn foesgar i gleifion drwy gydol yr arolygiad.

Cawsom gyfle i siarad â nifer o gleifion a oedd yn mynychu'r ddeintyddfa ar ddiwrnod ein hymweliad. Dywedodd bob un ohonynt wrthym, yn ddieithriad, eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir gan staff y practis.

Cyn ein hymweliad arolygu, rhoddwyd holiaduron AGIC i'r practis i'w dosbarthu i gleifion fel dull o gael eu safbwyntiau a'u profiadau o'r gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 14 o holiaduron. Dywedodd yr holl gleifion a ddarparodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt yn y practis, eu bod yn derbyn croeso cynnes gan y staff, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Ymhlith y sylwadau mae:

'Mae rhywun bob amser yn gofyn i mi os oes gennyf unrhyw gwestiynau, ac mae'r deintydd a'r nyrs yn treulio amser yn egluro pethau i mi.'

'Dyma'r ddeintyddfa orau dwi wedi bod iddi erioed. Maent yn gwneud i chi deimlo mor gartrefol.'

'Mae'r deintydd a'r fenyw glên wrth y ddesg flaen bob amser yn rhoi croeso cynnes i chi.'

'Rwy'n hapus iawn gyda'r ddeintyddfa hon. Mae pawb yn gymwynasgar iawn, ac rwy'n hoffi golwg fodern ac agored yr ystafelloedd, ac rwy'n derbyn gwasanaeth da iawn.'

Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn y dderbynfa fel dull o roi cyfle i gleifion fynegi barn a gwneud awgrymiadau ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod y sylwadau a dderbyniwyd hyd yma yn gadarnhaol iawn.

Fe'n hysbyswyd hefyd bod y cleifion yn cael eu hannog i godi unrhyw fater penodol gyda thîm y practis yn ystod eu hymweliadau er mwyn i staff allu ceisio ymdrin ag unrhyw bryderon yn y fan a'r lle.

Pan ofynnwyd i gleifion ynghylch gwneud cwynion, dywedodd y cleifion wrthym eu bod naill ai'n ymwybodol o sut i godi'r mater o wneud cwyn gyda'r staff yn y practis, neu nad oedd ganddynt reswm dros gwyno. Gwelsom fod posterï cwynion wedi'u harddangos o fewn ardal y dderbynfa/ystafell aros, ac roedd y rhain yn cynnwys y terfynau amser cywir ar gyfer cydnabod a datrys cwynion ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer cyrff perthnasol.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a chanfuom fod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau ymlaen llaw neu mewn achos brys. Golygai hyn y gallai pobl fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn gweld deintydd yn brydlon pan fyddant yn profi poen ddeintyddol.

Yn gyffredinol, fe'n hysbyswyd gan y cleifion y buom yn siarad â hwy a'r rhai a gwblhaodd holiaduron AGIC nad oedent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Disgrifiodd y staff broses a oedd ar waith i hysbysu cleifion o unrhyw oedi ar yr achlysuron prin pan fyddai eu deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Ymhlith y sylwadau eraill a ddarparwyd o fewn yr holiaduron a gwblhawyd oedd:

'Hapus iawn i dderbyn gwasanaeth ardderchog.'

'Maent bob amser yn llwyddo i roi apwyntiad i mi yn gyflym os oes problem yn codi, ac maent yn gadael i mi drefnu apwyntiadau o amgylch amseroedd y bws.'

'Rwyf bob amser wedi derbyn y gofal gorau gan gynnwys apwyntiadau brys. Mae fy mhlant wrth eu boddau yn dod i weld y deintydd hyd yn oed pan fydd angen triniaeth arnynt.'

'Mae'r gwasanaeth o'r radd flaenaf.'

Gwelsom fod y practis yn arddangos yn amlwg y gweithdrefnau cwyno ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG yn yr ardal aros, ynghyd ag amrywiaeth eang o ddeunydd i hybu iechyd deintyddol. Darparwyd rhywfaint o wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg. Gwelsom hefyd fod taflennu yn cael eu harddangos sy'n cynnig cyfle i gleifion ddefnyddio cludiant gwirfoddol lleol er mwyn eu helpu i gyrraedd y practis ar gyfer eu apwyntiadau deintyddol.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Canfuom fod y practis yn cael ei weithredu gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth o ansawdd i gleifion.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, ystyriwyd a oedd y cyfleusterau clinigol sydd ar gael yn y practis yn cydymffurfio â safonau cyfredol ar gyfer gwasanaethau iechyd Cymru – fel yr amlinellwyd yn y ddogfen 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well'.³ Cadarnhaodd ein harsylwadau fod yr amgylchedd clinigol o safon uchel gyda phwyslais arbennig ar ddiogelwch cleifion.

Cynghorwyd y practis bod dau welliant wedi'u nodi. Roedd y rhain yn ymwneud â'r angen i sicrhau bod yr holl gofnodion ar gyfer cleifion yn y dyfodol yn cynnwys digon o fanylion yn dilyn ymgynghoriadau a thriniaeth ddeintyddol, a'r angen i wella trefniadau sy'n gysylltiedig â dosbarthu cyffuriau ar bresgripsiwn.

Canfuom fod y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant cyfoes i'r staff. Gwelsom fod y ffeil diogelwch ymbelydredd yn fanwl iawn o ran defnyddio offer pelydr-X. Roedd hefyd yn amlwg bod deintyddion wedi cofnodi gwybodaeth ddigonol i gyfiawnhau pam fod rhai lluniau pelydr-X deintyddol wedi cael eu cymryd. Yn ogystal, roedd gan y ddeintyddfa system sicrwydd ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion wedi'u graddio a'u cofnodi. Fodd bynnag, efallai y byddai'r practis yn dymuno datblygu cynllun wrth gefn ar gyfer datblygu ffilmiau pelydr-X rhag ofn bod yr offer digidol yn methu.

Gwelsom dystysgrifau mewn ffeiliau staff a oedd yn dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio ag achosion brys meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Golygai hyn fod y staff wedi dysgu'r gweithdrefnau cywir i ddelio ag achosion brys cleifion. Mae gan y practis swyddog cymorth cyntaf neilltuedig hefyd.

³ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd-cym>.

Caiff y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru eu hategu gan ganllawiau atodol. Mae canllawiau penodol ar bob safon unigol (1–26) ar gael yn y ddogfen hon.

Roedd gan y staff fynediad i offer dadebru a chyffuriau priodol petai achos brys mewn perthynas â chlaf (yn llewygu/dod yn anymwybodol) yn y practis. Canfuom nad oedd yr uned sugno cludadwy yn cael ei storio gyda'r ocsigen cludadwy. Tynnodd un o'r deintyddion ein sylw at y ffaith hon; mae camau gweithredu yn cael eu cymryd ar unwaith i symud yr offer i le cyfleus er mwyn i'r staff gael mynediad iddo. Gwelsom fod gwiriadau rheolaidd wedi'u cynnal mewn perthynas â dyddiadau terfyn y cyffuriau a gedwir yn y practis drwy ddefnyddio cofnod ysgrifenedig. Gwelsom hefyd fod y cyffuriau brys a'r padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n briodol ac yn ddiogel.

Canfuom fod y practis yn rhoi gwrthfotigau i gleifion ar adegau, gyda'r cyffuriau yn cael eu rhoi mewn bagiau bach polythen. Cyngorwyd y practis i sicrhau bod meddyginiaeth a roddir i gleifion yn cael ei rhoi, yn y dyfodol, mewn potel â chaead na all plentyn ei agor, neu becynnau swigen, at ddiben diogelwch. Trafodwyd y mater hwn gyda deintyddion yn ystod yr ymweliad arolygu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddangos sut y bydd yn gwella'r modd o storio a phecynnu meddyginiaeth ar bresgripsiwn a roddir i gleifion.

Ystyriwyd y gweithdrefnau ar waith o ran glanhau a sterileiddio offer (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Roedd ystafell ddadheintio ar wahân yn yr adeilad (sy'n enghraifft o arfer da), a chafodd y broses ddadheintio gyfan ei hategu gan gofnodion o wiriadau diogelwch dyddiol o ran gweithredu'r awtoclaf yn ddiogel ac yn effeithiol.⁴ Roedd y rhaglen ddadheintio/cynnal a chadw yn cynnwys gwirio'r offer ar ddechrau a diwedd y dydd. Datgelodd sgwrs gydag un o'r nyrsys deintyddol nad oedd y peiriant golchi/diheintio yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd; mae peirianwyr wedi cael eu galw i gasglu'r peiriant a dod ag un newydd yn ei le. Yn y cyfamser, roedd y nyrsys deintyddol yn glanhau offerynnau â llaw cyn eu sterileiddio yn yr awtoclaf.

Roedd dau sinc yn yr ystafell ddadheintio, gydag un wedi'i neilltuo ar gyfer golchi dwylo, a'r llall yn cynnwys dwy bowlen ar gyfer proses lanhau gychwynnol yr offerynnau a ddefnyddiwyd ac yna eu rinsio yn y drefn honno. Gwelsom fod yr offerynnau wedi'u sterileiddio yn cael eu rhoi'n brydlon mewn bagiau wedi'u selio ar ddiwedd y broses ddadheintio, gyda'r pecynnau yn cael

⁴ Siambwr bwysedd yw **awtoclaf** a ddefnyddir i sterileiddio offer a nwyddau drwy ddefnyddio ager dirlawn pwysedd uchel.

eu marcio gyda dyddiad i'w defnyddio o fewn deuddeg mis yn unol â WHTM 01-05.

Gwnaethom ddewis ac edrych ar sampl o ddeg o gofnodion cleifion ar gyfer dau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis. Nid oedd digon o fanylion yn y cofnodion yn nhermau canfyddiadau'r deintyddion yn ystod ymgynghoriadau cleifion. Yn benodol, canfuom nad oedd un o'r cofnodion a ddewiswyd yn darparu tystiolaeth glir o drafodaethau gyda chleifion ynghylch opsiynau eu triniaeth a manteision/anfanteision y driniaeth. Nid oeddem chwaith wedi llwyddo i ddod o hyd i dystiolaeth wedi'i chofnodi o asesiadau risg cleifion ar gyfer pydredd yn y dannedd, clefyd y deintgig, canser y geg, na hanes meddygol cyfoes.

Rhoddwyd sampl bach pellach o gofnodion cleifion a gwblhawyd ers Ionawr 2015 i ni gan fod y practis wedi mabwysiadu dull mwy cadarn o lawer o gofnodi'r holl elfennau sydd eu hangen mewn perthynas ag ymgynghoriadau deintyddol cleifion. Yn ogystal, nododd holiaduron AGIC a gwblhawyd a'r cleifion y buom yn siarad â hwy ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod bob amser yn derbyn digon o wybodaeth yn y practis ynghylch eu gofal a thriniaeth ddeintyddol.

Yn y dyfodol, fodd bynnag, rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gofnodion ar gyfer cleifion yn cynnwys digon o dystiolaeth o bob agwedd ar ofal, trafodaethau, a'r driniaeth a ddarperir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynghorir y practis ynghylch yr angen i ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys digon o fanylion yn dilyn ymgynghoriadau a thriniaeth ddeintyddol. Mae hyn yn unol â safonau GIG cyfredol.

Cadwyd cofnodion cleifion yn y practis ar ffurf electronig a phapur. Cawsom ein sicrhau hefyd fod gan bob aelod o staff gyfrinair unigryw a bod yr holl wybodaeth gyfrifiadurol yn cael ei 'harbed wrth gefn' yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw ar y system. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid ystyried symud y cypyrddau ffeilio lle cedwir cofnodion cleifion. Roedd hyn am eu bod wedi'u lleoli ar hyn o bryd yn y neuadd/mynedfa'r practis, a chanfuom fod dau o ddroriau'r cypyrddau ffeilio wedi'u cau ond heb eu cloi. Golygai hyn y gallai pobl heb awdurdod o bosibl gael mynediad i gofnodion cyfrinachol. Gallai'r practis hefyd ystyried prynu cypyrddau gwrth-dân pan gaiff unrhyw gypyrddau metel confensiynol eu gwaredu.

Ymddangosai fod yr holl offer yn y practis mewn cyflwr da iawn ac yn ddarostyngedig i gontractau cynnal a chadw. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y profion teclynnau cludadwy wedi'u cynnal yn unol â'r gofynion.

Gwelsom fod digon o le i storio offerynnau deintyddol a bod cyfleusterau golchi dwylo penodol ym mhob deintyddfa. Cadarnhaodd y tîm hefyd nad oedd offerynnau sydd wedi'u defnyddio'n cael eu cludo rhwng y ddwy ddeintyddfa.

Datgelodd sgysiau gyda deintyddion fod archwiliad manwl wedi'i gwblhau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau. Datgelodd ein trafodaethau gyda'r tîm deintyddol hefyd fod pwyslais ar hyrwyddo gwasanaeth diogel, o ansawdd, drwy wiriadau dyddiol ac wythnosol mewn perthynas â defnyddio offer dadheintio.

Ystyriwyd cynnwys y cofnodion cynnal a chadw, a thrwy hyn roedd yn bosibl i ni gadarnhau bod gan y ddeintyddfa gontract parhaus er mwyn sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drin a'i waredu yn briodol. Gwelsom hefyd fod gwastraff (clinigol) peryglus yn cael ei storio'n gywir mewn ystafell wedi'i chloi.

Gwelsom fod gan staff fynediad i offer amddiffynnol personol addas i'w ddefnyddio yn ystod eu gwaith. Yn ogystal, rhoddwyd offer i amddiffyn llygaid y cleifion.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, buom yn ystyried a oedd y cyfleusterau clinigol sydd ar gael yn y practis yn cydymffurfio â safonau cyfredol ar gyfer gwasanaethau iechyd Cymru fel yr amlinellwyd yn y ddogfen 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well'.⁵ Cadarnhaodd ein harsylwadau fod yr amgylchedd clinigol o safon uchel yn gyffredinol gyda phwyslais arbennig ar ddiogelwch cleifion.

⁵ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd-cym>.

Caiff y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru eu hategu gan ganllawiau atodol. Mae canllawiau penodol ar bob safon unigol (1–26) ar gael yn y ddogfen hon.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Cafodd y practis deintyddol ei sefydlu a'i rhedeg yn dda gan Mr E. H. Cronin a Mrs J. M. Cronin gyda chymorth tîm o staff profiadol, llawn cymhelliant. Roedd gan y practis weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn cymorth da er mwyn cyflawni eu rolau.

Mae Practis Deintyddol Trefynwy yn ddeintyddfa annibynnol sydd wedi'i hen sefydlu. Roedd y gwaith cyffredinol o reoli'r practis yn cael ei ddarparu gan Mr E. H. Cronin a Mrs J. M. Cronin (deintyddion sy'n gweithio yn y practis), ac roedd y trydydd deintydd, rheolwr y practis, ac aelodau eraill o'r tîm deintyddol yn gyfrifol am feysydd cytûn yn ymwneud â gweithredu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Yn gyffredinol, canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda gan fod y gwaith dyddiol o weithredu'r gwasanaeth yn cael ei ategu gan amrywiaeth o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu mewn ffordd ddiogel ac amserol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny drwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisïau a gedwir yn y practis a thrwy drafodaethau â phob aelod o'r tîm deintyddol.

Roedd manylion cyswllt y timau diogelu lleol mewn perthynas ag amddiffyn oedolion a phlant wedi'u cynnwys yn glir o fewn dogfennau polisi.

Roedd elfen nyrsio a gweinyddol y tîm staffio wedi'i sefydlu'n dda, ac roedd pob person wedi gweithio yn y practis am bum mlynedd neu fwy. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y ddeintyddfa wedi defnyddio staff deintyddol o asiantaeth, ac roedd lefelau salwch/absenoldeb y staff yn isel. Golygai hyn fod y cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth oddi wrth staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Dywedodd y staff nyrsio deintyddol y buom yn siarad â hwy eu bod yn derbyn cymorth da er mwyn cyflawni eu gwaith. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod, ynghyd â'r deintyddion, yn mynychu cyfarfodydd staff rheolaidd (bob tri mis) lle y cânt gyfleoedd i godi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Defnyddiwyd cyfarfodydd o'r fath hefyd i drosglwyddo gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol. Roedd yn bosibl i ni gadarnhau'r trefniadau hynny drwy edrych ar y nodiadau a gedwir yn y ddeintyddfa, a oedd yn amlygu'r pynciau/materion perthnasol a drafodwyd gan y tîm. Dangosodd ein sgysiau gyda'r derbynnydd a'r nyrsys deintyddol hefyd allu'r tîm i drafod materion clinigol o ddydd i ddydd mewn ffordd anffurfiol.

Archwiliwyd tair ffeil staff gennym, a dangosodd hyn eu bod wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol yn ystod 2014 a oedd yn cynnwys sesiynau ynghylch adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) ac amddiffyn oedolion a phlant. Canfuom hefyd fod y practis yn rhoi pwyslais mawr ar hyfforddi a datblygu staff yn gyffredinol, ac roedd ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant staff dros y blynyddoedd diwethaf.

Gwelsom gofnodion ysgrifenedig a oedd yn darparu tystiolaeth bod staff yn rhan o broses arfarnu flynyddol a oedd yn helpu pennu a oedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd dros y deuddeg mis blaenorol yn effeithiol a pha hyfforddiant oedd ei angen yn y dyfodol. Roedd yr arfarniad hefyd yn cynnig cyfle i drafod yn agored y gwasanaethau a ddarperir yn y practis.

Datgelodd sgwrs gyda'r deintyddion fod y practis ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn ymarfer adolygu gan gymheiriaid, a oedd yn hybu trafodaethau ynghylch agweddau ar ymarfer clinigol gyda deintyddion lleol eraill. Bwriad yr ymarfer hwn oedd gwneud gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth a ddarperir ym Mhractis Deintyddol Trefynwy i'r graddau mwyaf posibl.

Canfuom fod gan y staff gontractau cyflogaeth a oedd wedi'u llofnodi a'u dyddio, ac roedd yr holl aelodau staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt yswiriant indemniad deintyddol. Roedd y ddeintyddfa hefyd wedi datblygu rhaglen sefydlu i sicrhau bod unrhyw aelodau newydd o'r tîm deintyddol yn gallu dod yn gyfarwydd â gwerthoedd ac ethos y practis yn ogystal â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig mewn perthynas â gwasanaethau cleifion.

Gwelsom fod gan y practis dystiolaeth gyfredol o frechiad Hepatitis B ar gyfer yr holl aelodau staff. Cadarnhaodd sgwrs gyda nyrs ddeintyddol hefyd fod trefniadau addas ar waith rhwng y practis a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan er mwyn cael cymorth a chynghor gan yr adran iechyd galwedigaethol fel bo angen.

Dangosodd ein trafodaeth gyda dwy nyrs ddeintyddol eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y practis. Roedd gweithdrefn chwythu'r chwiban hefyd ar waith.

Roedd tystysgrifau AGIC wedi'u harddangos yn amlwg yn yr ardal aros i gleifion mewn perthynas â'r gwasanaeth deintyddol preifat a ddarperir yn y practis yn unol â gofynion y rheoliadau.

Archwiliwyd amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, a dangosodd hyn fod systemau a phrosesau addas ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio yn amserol ac yn unol â gofynion gorfodol.

Ansawdd yr Amgylchedd

Cafodd y ddeintyddfa ei chynnal a'i chadw'n dda, ac roedd yn darparu amgylchedd diogel er mwyn i gleifion dderbyn triniaeth. Gwelsom hefyd fod yr adeilad yn lân ac yn hylan drwyddo draw.

Mae Practis Deintyddol Trefynwy yn darparu gwasanaethau o goetsiws wedi'i adnewyddu sydd ar brif ffordd yn nhref Trefynwy. Roedd enwau a chymwysterau pob deintydd sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos ar arwydd y tu allan i'r adeilad.

Gwelsom fod y mynediad i'r adeilad a'r deintyddfeydd ar y llawr daear yn addas ar gyfer unigolion sydd ag anawsterau symudedd. Roedd un gris wrth y fynedfa; fodd bynnag, roedd y practis wedi prynu ramp cludadwy er mwyn galluogi cleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn er mwyn cael mynediad i'r adeilad mewn ffordd ddiogel.

Roedd hyd at bedwar lle parcio wedi'u neilltuo ar gyfer adeilad y practis. Yn ogystal, roedd parcio tymor byr ar gael o fewn y strydoedd preswyl sy'n agos i'r practis, ac roedd maes parcio talu ac arddangos cyfagos hefyd.

Cadarnhaodd ein taith o amgylch yr adeilad fod y ddeintyddfa yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda iawn gyda golau, gwres ac awyru addas. Roedd yr adeilad yn cynnwys dwy ddeintyddfa i gleifion, a oedd wedi'u lleoli ar y llawr daear.

Roedd ardal y dderbynfa ar y llawr daear, yn union i'r chwith o'r drws blaen.

Roedd yr ystafell aros yn agored, yn groesawgar, gyda dodrefn cyfforddus ac yn addas o ran maint ar gyfer nifer y deintyddfeydd.

Roedd gan y practis doiled ar y llawr daear a oedd wedi'i addasu'n arbennig ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd, ac roedd arwyddion yn nodi'r lleoliad yn glir. Roedd toiled arall ar gael i'r staff ar y llawr cyntaf. Roedd yr holl gyfleusterau'n lân ac yn hylan, gydag offer golchi dwylo addas i atal groes-heintio.

Gwelsom fod cegin/ardal orffwys ar gyfer y staff a lle i newid ar y llawr cyntaf. Roedd lle ar gyfer swyddfa hefyd ac ystafell breifat a ddefnyddir gan y perchnogion yn y rhan honno o'r adeilad.

Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir, ac roedd y diffoddwyr tân ar y ddau lawr wedi'u archwilio'n ddiweddar. Fodd bynnag, cynghorwyd y practis gennym i ddarparu un arwydd ychwanegol i nodi'r allanfa dân ar ben cyntedd y llawr cyntaf er mwyn sicrhau bod unrhyw ymwelwyr â'r practis yn glir ynghylch y ffordd fwyaf diogel o adael yr adeilad petai tân.

Roedd tystysgrif yswiriant indemnïad y cyflogwr wedi'i harddangos yn y practis deintyddol, ond nid mewn ardal a oedd yn hawdd i'r cleifion ei gweld. Cytunodd y tîm deintyddol i symud y dystysgrif i'r ardal aros, gan wneud y wybodaeth yn fwy hygyrch i gleifion.

Canfuom fod gan y practis gontract offer tân dilys, ac roedd goleuadau argyfwng ar gael.

Roedd larwm diogelwch ar yr adeilad er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Trefynwy yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Trefynwy

Dyddiad yr Arolygiad: 23 Chwefror 2015

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	Ni nodwyd unrhyw faterion i'w gwella o ran y maes hwn o'r arolygiad.			
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
9	Mae'n ofynnol i'r practis ddangos sut y bydd yn gwella'r modd o storio a phecynnu meddyginiaeth ar bresgripsiwn a roddir i gleifion. Safon GIG 15	Bydd unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn a gaiff ei rhoi i gleifion yn parhau i gael ei storio mewn cwpwrdd â chlo arno i ffwrdd o ardaloedd cleifion. Rydym yn croesawu'r adroddiad, sy'n amlygu'r angen i roi meddyginiaeth i gleifion mewn ffordd ddiogel. Mae gwelliannau eisoes wedi'u gwneud i sicrhau bod yr holl feddyginiaethau ar bresgripsiwn yn cael eu rhoi naill ai mewn potel â chaead na all plentyn ei agor neu becyn swigen.	Mr E. H. Cronin a Mrs J. M. Cronin	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
10	Cynghorir y practis ynghylch yr angen i ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys digon o fanylion yn dilyn ymgynghoriadau a thriniaeth ddeintyddol. Mae hyn yn unol â safonau GIG cyfredol: 7a, 8a, 9a a 9b.	Bydd y practis yn cynyddu pa mor aml y caiff archwiliadau mewnol o gofnodion eu cynnal er mwyn sicrhau bod y gwaith cadw cofnodion o safon uchel yn parhau. Dylai hyn, ochr yn ochr ag adolygiad gan gymheiriaid allanol ynghyd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol, ddarparu dull addas i gadarnhau bod safonau gofynnol GIG yn cael eu bodloni.	Mr E. H. Cronin a Mrs J. M. Cronin	Mae natur y gwelliant hwn yn amlwg yn barhaus ac nid oes man terfyn naturiol iddo.
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
	Ni nodwyd unrhyw faterion i'w gwella o ran y maes hwn o'r arolygiad.			
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Ni nodwyd unrhyw faterion i'w gwella o ran y maes hwn o'r arolygiad.			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch): **Drs E. a J. Cronin**.....

Teitl: **Perchnogion y Practis**.....

Llofnod:

Dyddiad: **1 Ebrill 2015**.....